



"Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur iawn i'n swyddogion technegol yn ne orllewin Cymru. Maen nhw wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n safleoedd arddangos newydd i gynllunio prosiectau newydd a chyffrous i'ch ysbrydoli. Cadwch lygad am ein digwyddiadau yn ystod 2020, ac am ddiweddariadau ar ein prosiectau ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol".

- Dewi Hughes, Rheolwr Technegol



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

08456 000 813

## Gwella perfformiad mentrau biff

Dyma fydd y prif ffocws dros y tair blynedd nesaf ar fferm Bryn Farm, safle arddangos newydd sbon Cyswllt Ffermio yn Aberteifi. Bydd rhan gyntaf y prosiect yn archwilio gwahanol systemau pesgi i ganfod pa un sy'n gweddu orau ar gyfer Bryn Farm.

Dewiswyd pymtheg tarw, gyda'r mwyafrif ohonynt yn deirw Charolais croes a'r gweddill yn Hereford croes o wartheg Saler yn bennaf. Mae'r rhain yn cael eu bwydo gyda dwysfwd ad-lib a gwellt gyda chymysgedd 50/50 o fwyd a brynir i mewn ac a dyfir gartref. Cafodd gweddill y teirw eu hysbaddu a'u cymysgu gyda'r heffrod. Mae'r rhain yn derbyn diet ar gyfer gwartheg tyfu neu stôr, sy'n cynnwys silwair yn bennaf gyda 2.5kg o ddwysfwd gyda chymysgedd o fwyd a brynir ac a dyfir.

### Bydd y prif feysydd ffocws yn ystod y prosiect yn cynnwys:

- Gwella perfformiad y fuches sugno
- Lleihau' risg o TB drwy werthu gwartheg wedi'u pesgi
- Gwneud y defnydd gorau o fwyd a glaswellt a dyfir gartref

## Dethol ar gyfer geneteg effeithlon mewn buches sy'n lloea yn y gwanwyn

Mae prosiect yn canolbwyntio ar gynnal profion genomeg wedi dechrau'n ddiweddar ar safle arddangos Mountjoy yn Sir Benfro. Mae profion genomeg yn adnodd defnyddiol i ragweld rhinweddau geneteg anifeiliaid ifanc yn gywir. Gall y canlyniadau sicrhau bod yr anifeiliaid cyfnewid cywir yn cael eu defnyddio ar gyfer bridio er mwyn sicrhau'r perfformiad



ar proffidioldeb gorau posibl yn y fuches. Fel rhan o'r prosiect, cynhaliwyd profion genomeg ar 95 o heffrod R2 a oedd yn barod i loea ym mis Mawrth 2020 ym mis Rhagfyr 2019. Cynhelir digwyddiad yma ar 14 Gorffennaf 2020.

*Offer samplu genomeg a thiwbiau sbesimen*


## RHEOLI TIR YN FANWL GYWIR AR FFERM PANTYDERI

Yn hanesyddol, roedd samplu pridd yn golygu cymryd un sampl gynrychiadol ar batrwm "W" ar draws cae, neu'n ddiweddarach, samplu caeau ar ffurf grid yn ôl pwyntiau GPS. Gan ddefnyddio technegau sganio dargludedd trydan (EC), mae bellach yn bosibl mapio'n fanwl sut mae nodweddion pridd yn amrywio ar draws cae, ac yna i rannu'r cae yn barthau rheoli gwahanol ar sail y gwahanol fathau o bridd.

Dyma fydd prif ffocws prosiect newydd ar safle arddangos Pantyderi yn Sir Benfro.

Bydd samplu'r pridd yn strategol o fewn y parthau rheoli yn rhoi darlun o ddata maetholion amrywiol, a bydd modd defnyddio'r data i wasgaru gwrtaithe ar gyfraddau amrywiol. Bydd hyn yn helpu i gydbwysu cynnyrch cynydu ar draws y cae, yn sicrhau bod maetholion yn cael eu defnyddio'n effeithlon, ac mae'n fwy caredig i'r amgylchedd.

### Soil mapping process at Pantyderi



## Cyswllt Ffermio - Diweddariad

Yn dilyn y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â Coronavirus, mae pob digwyddiad agored a digwyddiadau gyda nifer o fynychwyr Cyswllt Ffermio wedi eu gohirio hyd ddiwedd mis Mai o leiaf. Gweler ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.



Cadwch lygad ar y datblygiadau a'r canlyniadau diweddaraf am y prosiectau trwy fynd i'n gwefan a'n dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

